## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 24 MAWRTH 2021 DYDD MERCHER, 24 MAWRTH 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Cynghorydd J. Mason – Eitem Rhif 6 – Cofnodion y Gweithgor Grantiau (Cronfa Eglwysi Cymru) (Cymdeithas Pensiynwyr Winchestown). | |

| | | |
|---|---|---|
| | **COFNODION** | |
| **No. 4** | **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **PWYLLGOR GWEITHREDOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 6** | **COFNODION Y GWEITHGOR GRANTIAU – 10 MAWRTH 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y Gweithgor Grantiau a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd at y Cofnodion a dywedodd fod y Gweithgor wedi cytuno y dylid dilyn dull gweithredu cyson yn nhermau dyraniadau grant ar draws y gwahanol grwpiau ymgeisio os nad oedd sefydliad wedi gofyn am swm penodol is. Defnyddiwyd y rhesymeg hon ar gyfer eglwysi, capeli ac amgueddfeydd a chymdeithasau pensiynwyr, canolfannau cymunedol a thenantiaid a phreswylwyr.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y gwrthodwyd cais am grant ar gyfer cymdeithas gan y teimlai y byddid yn effeithio ar fuddiolwyr tebyg i eglwysi, capeli ac yn y blaen pe byddai grwpiau chwaraeon yn cael eu cefnogi yn y ffordd hon.<br><br>Dymunai'r Arweinydd ddiolch i'r swyddogion am y gwaith da i sicrhau y cytunwyd ar y grantiau hyn cyn 31 Mawrth yn unol â'r dyddiadau cau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **GRANTIAU I SEFYDLIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |